| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir Llawn** |
| Dyddiad: | **23/09/2025 a 25/09/2025** |
| Pwnc: | **Hunanasesiad ac Adrodd Perfformiad** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Cyng Carwyn Jones** |
| **Cyfarwyddwr/Awdur yr Adroddiad** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |

| A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|

**Argymhellion:**

1. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell fod y Cyngor / Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau cyfansoddiadol sydd eu hangen er mwyn adlewyrchu uno'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol a'r Adroddiad Perfformiad (Llesiant) Blynyddol i fod yn un ddogfen unigol y cyfeirir ati fel yr Adroddiad Hunanasesiad a Pherfformiad (Llesiant).

2. Mae'r Pwyllgor gwaith yn argymell fod y Cyngor / Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau i'r cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu y bydd yr adroddiad wedi'i gyfuno y cyfeirir ato ym mharagraff 1 uchod yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith

3. Bod y Cyngor yn awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud y newidiadau cyfansoddiadol sydd eu hangen er mwyn gweithredu paragraffau 1 a 2 uchod.

**Rhesymau**

4. Mae gofynion statudol i'r Cyngor gyhoeddi Adroddiad Hunanasesu Blynyddol ac Adroddiad (Llesiant) Blynyddol. Mae cyfuno'r adroddiadau hyn yn rhywbeth a ganiateir o dan y ddeddf ac yn rhywbeth sy'n cael ei annog yn y canllawiau statudol sy'n cyd-fynd â Deddfwriaeth Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant 2015. Mae pob un yn pwysleisio manteision adrodd ar y cyd lle bo hynny'n bosibl.

5. Mae'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol yn trafod perfformiad y Cyngor, defnydd effeithiol o adnoddau a threfniadau llywodraethiant. Gan mai'r Pwyllgor Gwaith sydd â chyfrifoldeb am ddarparu gwasanaeth ac o ganlyniad i rôl ailadroddol y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio mewn perthynas â'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol, gwnaed penderfyniad gan y Cyngor y byddai'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol yn dod yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith. Gwnaed y penderfyniad hwn ar 24/09/2024. Gweler y ddolen yma.

6. Mae'r Adroddiad Perfformiad (Llesiant) Blynyddol yn trafod sut yr ydym yn bodloni ein hamcanion llesiant yn gynaliadwy, yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Yn ei hanfod, mae'n trafod y ffordd mae'r Cyngor yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol a osodir gan y Llywodraeth tra'n darparu ar gyfer anghenion trigolion heb gyfaddawdu llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Adroddiad Perfformiad (Llesiant) Blynyddol yn fater i'r cyngor Llawn ar hyn o bryd.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| 7. Er bod y ddau adroddiad yn ganlyniad i wahanol ddeddfwriaethau, maent yn cynnwys tir cyffredin ac yn dibynnu ar ddata/gwaith dadansoddi tebyg er mwyn arddangos cydymffurfiaeth â dau wahanol ofyniad statudol. Mae hyn yn dyblygu gwaith ar gyfer Aelodau a Swyddogion er yr egwyddor o adrodd ar y cyd sydd wedi'i gynnwys yn y canllawiau statudol.<br><br>8. Er mwyn osgoi dyblygu ac er mwyn gallu defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd mwyaf effeithiol bosib, awgrymir cyfuno'r adroddiadau a diwygio'r Cyfansoddiad er mwyn sicrhau bod y cyfrifoldeb am yr adroddiad ar y cyd yn cael ei glustnodi i un ai'r Cyngor Llawn neu'r Pwyllgor Gwaith. Yr enw ar yr adroddiad ar y cyd fyddai'r Adroddiad Hunanasesiad a Pherfformiad (Llesiant) Blynyddol<br><br>9. Oherwydd yr achos a wnaed i'r Cyngor Llawn ar 24/09/2024 fe benderfynodd y Cyngor ddyrannu'r cyfrifoldeb am yr Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol i'r Pwyllgor Gwaith. Yr argymhelliad felly yw bod yr adroddiad wedi'i gyfuno yn dod yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith. Bydd adroddiad o'r fath yn parhau yn destun craffu gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac, o dan ei gylch gorchwyl statudol, y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio. Mae modd integreiddio'r adroddiadau, a symleiddio'r broses o gymeradwyo, ond heb gyfaddawdu ar y cyfle priodol am her ac atebolrwydd. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Cynnal y drefn bresennol neu ddyrannu'r cyfrifoldeb am yr adroddiad ar ei ffurf newydd i'r Cyngor Llawn. Gwrthodwyd yr opsiynau hyn am y rhesymau a ddisgrifir yn 4-9 uchod. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'n cynnwys argymhelliad am newid cyfansoddiadol ac mae'n rhaid darparu cyfle i'r Pwyllgor Gwaith fynegi barn. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad terfynol yn un i'r Cyngor Llawn. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Amherthnasol |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol |



**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

| Dd – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Amherthnasol Mae’r Adroddiad hwn yn trafod sut a lle rydym yn adrodd yn hytrach na beth yr ydym yn ei adrodd. |
| 2 | A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae’r penderfyniad yn effeithio’n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |

| Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|

| |
|---|
| |

| Ff - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |



**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**